

---

# Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau teledu a Rhaglenni Rhanbarthol

Cais am Dystiolaeth

---

**Adolygiad:**

Dyddiad Cyhoeddi: 26 Mawrth 2018

Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 10 Mai 2018

# Gair am y ddogfen hon

---

Fel rhan o'r ymgynghoriad ym mis Mawrth 2017 ar Drwydded Weithredu'r BBC, fe wnaethom gyhoeddi ein bwriad i adolygu'r canllawiau i ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol*.

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio sut gall ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflawni eu rhwymedigaethau i sicrhau bod cyfrannau penodol o'r rhaglenni maent yn eu dangos yn cael eu cynhyrchu tu allan i Lundain, yng nghenedloedd a rhanbarthau'r DU. Maent hefyd yn esbonio sut ddylai trwyddedigion y BBC a Channel 3 gyflawni eu rhwymedigaethau i ddangos rhaglenni mewn gwahanol ranbarthau sy'n berthnasol i'r ardaloedd hynny.

Y Cais hwn am Dystiolaeth yw cam cyntaf ein hadolygiad. Y nod yw casglu data a safbwyntiau rhanddeiliaid am gyflwr y sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac am effaith y canllawiau presennol ar y broses o wneud *cynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol*. Bydd yr wybodaeth a gaiff ei chasglu yn cael ei defnyddio i helpu i ddatblygu ymgynghoriad a allai gynnwys cynigion penodol ynghylch newidiadau i'r canllawiau.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r ymgynghoriad yn nes ymlaen yn 2018. Felly, y Cais hwn am Dystiolaeth yw'r cyfle cyntaf o ddau i gyfrannu'n ffurfiol at yr adolygiad.

# Cynnwys

---

## Adran

1. Cefndir yr adolygiad	1
2. Newidiadau yn y maes cynhyrchu teledu	5
3. Y cwotâu a'r canllawiau: y safbwynt rheoleiddio	10
4. Rhoi'r canllawiau ar waith yn ymarferol: <i>cynyrchiadau teledu rhanbarthol</i>	13
5. Rhoi'r canllawiau ar waith yn ymarferol: <i>rhaglenni teledu rhanbarthol</i>	23
6. Y broses adrodd	25

## Atodiad

A1. Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth	27
A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom	30
A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad	31
A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad	33

# 1. Cefndir yr adolygiad

## Y cyd-destun rheoleiddio

- 1.1 Mae Ofcom yn dymuno gweld buddsoddiad mewn rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU. Mae hyn yn golygu bod buddion economaidd a diwylliannol llawn comisiynu teledu yn cael eu gwireddu ar draws y DU. Pan mae rhaglenni rhanbarthol yn llwyddo, gallant ysgogi swyddi, denu talent a chyfrannu'n sylweddol i economi creadigol ardal.
- 1.2 O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Siarter a Chytundeb y BBC, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod cyfran addas o'r cynyrchiadau a gomisiynir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'w darlledu ar draws y DU yn cael eu gwneud y tu allan i'r M25 ('*cynyrchiadau rhanbarthol*').<sup>1</sup> Hefyd, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i *raglenni rhanbarthol*, sy'n cael eu darlledu mewn ardaloedd mwy lleol ar wasanaethau'r BBC a Channel 3 ('*rhaglenni rhanbarthol*').<sup>2</sup>
- 1.3 Mae hefyd yn angenrheidiol ein bod yn sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i raglenni rhanbarthol, wedi'u darlledu mewn ardaloedd fwy lleol ar wasanaethau'r BBC a Channel 3 ('*rhaglennu rhanbarthol*').
- 1.4 I gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae Ofcom wedi gosod cwotâu ar y gyfran sylfaenol o<sup>3</sup> wariant ac oriau cymwys y mae'n rhaid eu neilltuo i *gynyrchiadau rhanbarthol*. Mae lefel y cwotâu yn amrywio yn ôl darlledwr, ac mae wedi'i nodi yn nhrwydded pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus (y 'cwotâu ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol*') – edrychwch ar Ffigur 4 yn Adran 3 i gael manylion. Hefyd, mae Ofcom wedi gosod cwotâu ar gyfer *rhaglenni rhanbarthol* i BBC One a BBC Two,<sup>4</sup> a gwasanaethau Channel 3 (edrychwch ar Ffigur 5 yn Adran 3). Mae'r rhain yn mynnu bod y cynnwys o ddiddordeb arbennig i'r bobl sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol sy'n cael y gwasanaeth.
- 1.5 Mae Ofcom wedi llunio canllawiau er mwyn sicrhau bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni'r ddwy set o gwotâu mewn ffordd gyson.<sup>5</sup> Mae'r canllawiau'n egluro sut rydym wedi dehongli'r dyletswyddau statudol. Maen nhw'n cynnwys ein diffiniadau o *gynyrchiadau rhanbarthol* a *rhaglenni rhanbarthol* ac yn egluro sut rydym yn disgwyl i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gydymffurfio â'r cwotâu, a sut rydym yn monitro cydymffurfiaid â'r dyletswyddau. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi'r '*Gofrestr o deitlau rhaglenni sydd wedi'u gwneud y tu allan i Lundain*', sy'n nodi'r cyhoeddiadau y

---

<sup>1</sup> Adrannau 286 a 288 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (Channel 3, Channel 4 a Channel 5), ac Atodlen 2, paragraff 7 yng Nghytundeb y BBC.

<sup>2</sup> Adran 287 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (Channel 3) ac Atodlen 2, paragraff 6 yng Nghytundeb y BBC.

<sup>3</sup> Dim ond rhaglenni a ddarlledir am y tro cyntaf sy'n gallu cael eu cynnwys yn y cwota ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol*. Mae rhaglenni newyddion hefyd wedi'u heithrio o'r cwota.

<sup>4</sup> Mae'r amodau hyn ar gyfer BBC One a BBC Two gyda'i gilydd. Mae gan y BBC ddyletswydd hefyd i ddarparu rhaglenni newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One.

<sup>5</sup> [Diffiniadau o gynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol: Canllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, 2010.](#)

mae'r darlledwyr wedi'u cynnwys yn eu cwotâu blynyddol ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol*.

## Pam rydym yn adolygu'r canllawiau

1.6 Fe wnaethom gyhoeddi ein bwriad i adolygu'r canllawiau ar gyfer *rhaglenni a chynyrchiadau teledu rhanbarthol* yn ein hymgyngoriad ar Drwydded Weithredu'r BBC ym mis Mawrth 2017.<sup>6</sup> Rydym yn cynnal yr adolygiad hwn yn awr am y rhesymau canlynol:

a) **Datblygiadau yn y farchnad:** Ers i'r canllawiau gael eu cyflwyno yn 2004, mae'r sector cynhyrchu teledu wedi gweld llawer o newidiadau, a'r rheini â goblygiadau uniongyrchol i'r broses o wneud rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan gynnwys: y BBC yn symud i Salford yn 2012; lansio Local TV<sup>7</sup>; a chyflwyno'r cwotâu i Channel 4 ar gyfer cynyrchiadau y tu allan i Loegr yn 2010. Mae nifer o ddatblygiadau ar waith yn y farchnad ar hyn o bryd hefyd, a allai effeithio ar y sector *cynyrchiadau rhanbarthol*. Mae'r rhain yn cynnwys creu BBC Studios fel endid masnachol; cael gwared ar warant fewnol y BBC; y sianel arfaethedig ar gyfer BBC Scotland;<sup>8</sup> a'r cynllun a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Channel 4 i gynyddu nifer y swyddi a'r gwariant y tu allan i Lundain drwy greu 'Pencadlys Cenedlaethol' a dwy 'is-ganolfan greadigol' lai y tu allan i Lundain yn 2019.<sup>9</sup>

Mae angen i ni ystyried effaith y newidiadau hyd yma ar y sector, a'u heffaith bosib ar y broses o roi'r canllawiau ar waith yn ymarferol. Mae angen i ni hefyd asesu sut mae sicrhau bod y canllawiau'n effeithiol yn y maes cynhyrchu yn y dyfodol.

b) **Trefn reoleiddio newydd ar gyfer y BBC:** Mae angen i ni ystyried pa ddiweddariadau y mae angen eu gwneud i'r canllawiau, er mwyn iddyn nhw adlewyrchu'r darpariaethau ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol* o dan y Siarter a'r Cytundeb newydd.

c) **Y broses bresennol o roi'r canllawiau ar waith:** Rydym wedi cael nifer o ymholiadau gan randdeiliaid ynghylch y ffordd mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chwmnïau cynhyrchu yn defnyddio'r canllawiau (a'r meini prawf yn benodol) yn ymarferol. Rydym hefyd yn awyddus i ddeall i ba raddau mae'r ffordd mae *cynyrchiadau rhanbarthol* yn cael eu gwneud yn helpu i gyflawni bwriad y cwotâu: cefnogi a chryfhau'r economïau creadigol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU.

---

<sup>6</sup> t41, [Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus: Ymgynghoriad, 2017](#).

<sup>7</sup> Sefydlwyd fframwaith statudol yn 2012 er mwyn gallu cyflwyno gwasanaethau teledu lleol. Lanswyd y gwasanaeth teledu lleol cyntaf yn 2013.

<sup>8</sup> Ar 11 Ionawr, dechreuodd Ofcom weithio ar Asesiad Cystadleuaeth a oedd yn edrych ar gynllun y BBC i lansio sianel deledu newydd yn yr Alban. Ar 15 Mawrth, cyhoeddodd y BBC ei fod yn bwriadu gwneud rhywfaint o newidiadau i'r cynllun. Mae Ofcom yn ystyried goblygiadau'r newid ar hyn o bryd, a byddwn yn mynd ati cyn gynted â phosib i gyhoeddi ein barn ynghylch beth mae'r newid i'r cynllun yn ei olygu i'n proses ni.

<sup>9</sup> <http://www.channel4.com/info/press/news/channel-4-launches-4-all-the-uk>.

- d) **Ymrwymiad i gynnal adolygiad:** Roeddem hefyd wedi ymrwymo yn y canllawiau i *“fonitro'r cydbwysedd rhwng cynyrchiadau rhanbarthol sydd wedi'u creu gan gynhyrchwyr rhanbarthol a chynhyrchwyr yn Llundain, ac os daw i'r amlwg bod cynhyrchwyr yn Llundain yn dominyddu cynyrchiadau rhanbarthol, byddwn yn ystyried newidiadau pellach.”*<sup>10</sup> Mae'r adolygiad hwn yn gyfle i asesu'r cydbwysedd hwn.

## Hyd a lled yr adolygiad

- 1.7 I helpu i lywio hyd a lled yr adolygiad, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar hyd a lled y DU i gael safbwyntiau rhanddeiliaid ar gyflwr y sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac ar effaith y canllawiau ar y broses o gyflawni'r cwotâu ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol*. Mae'r safbwyntiau hyn yn cael eu crynhoi drwy'r ddogfen hon.
- 1.8 Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol yw'r canllawiau, a'r trefniadau cydymffurfio ac adrodd cysylltiedig.
- 1.9 Byddwn yn ystyried effaith datblygiadau yn y sector cynhyrchu cenedlaethol a rhanbarthol, ond mae'n bwysig nodi na fydd yn adolygiad llawn o'r sector cynhyrchu. Byddwn hefyd yn edrych ar y broses gynhyrchu; sut mae'r canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol; ac a ydyn nhw'n dal yn briodol i'r sector cynhyrchu ar ei ffurf bresennol ac yn y dyfodol.
- 1.10 Ein bwriad ar hyn o bryd yw y bydd yr adolygiad hwn yn gwyro mwy tuag at agweddau *cynyrchiadau rhanbarthol* y canllawiau, yn hytrach na'r elfennau *rhaglenni rhanbarthol*, gan mai dyma lle mae'r mwyafrif o newidiadau yn digwydd yn y sector a dyma y mae'r rhan fwyaf o sylwadau rhanddeiliaid yn canolbwyntio arno yn ôl pob golwg. Fodd bynnag, byddem yn awyddus i gael unrhyw safbwyntiau gan rhanddeiliaid ynghylch *rhaglenni rhanbarthol* a'r rhan honno o'r canllawiau, er mwyn penderfynu a oes dadl dros edrych yn fanylach ar yr elfen hon (edrychwch ar Adran 5).
- 1.11 Fan leiaf, bydd angen i ni ddiweddarau'r cyfeiriadau yn y canllawiau i adlewyrchu'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer y BBC. Mae'n bosib y byddwn hefyd yn ystyried gwneud newidiadau mwy sylweddol i'r canllawiau, gan ddibynnu ar ein canfyddiadau a graddfa unrhyw broblemau y byddwn yn dod ar eu traws. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y byddai unrhyw newidiadau y byddem yn eu cynnig yn canolbwyntio ar y ffordd y mae'r cwotâu presennol yn cael eu cyflawni. Bydd y cynigion penodol y byddwn yn eu cyflwyno ar gyfer yr ymgynghoriad yn ystyried y cyfraniadau a gafwyd hyd yma gan rhanddeiliaid a'r ymatebion a gawn i'r Cais hwn am Dystiolaeth.
- 1.12 Byddwn yn asesu a ddylem gyhoeddi gwybodaeth fanylach am y cynyrchiadau sy'n cael eu rhestru yn y *'Gofrestr o deitlau rhaglenni sydd wedi'u gwneud y tu allan i Lundain'*. Lansiwyd y Gofrestr yn 2010, ac mae'n cynnwys gwybodaeth gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n galluogi rhanddeiliaid i weld sut mae'r darlledwyr wedi cyflawni eu cwotâu ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol*. Mae rhanddeiliaid wedi dweud y bydden nhw'n hoffi

---

<sup>10</sup> Edrychwch ar baragraff 9.1 y [canllawiau](#).

gweld data manylach yn cael ei gyhoeddi, ac rydym yn eu gwahodd i gyflwyno rhagor o wybodaeth ynghylch hyn. Trafodir hyn ymhellach yn Adran 6.

- 1.13 Bwriad y Cais hwn am Dystiolaeth yw datblygu ein dealltwriaeth o'r materion sydd eisoes o fewn terfynau'r prosiect hwn, yn ogystal â dod ag unrhyw ffactorau newydd i'r wyneb, er mwyn llywio ein hystyriaethau ymhellach ar gyfer yr adolygiad. Felly, rydym yn awyddus i gael gwybodaeth y tu hwnt i'r hyn rydym eisoes wedi'i gael gan randdeiliaid (wedi'i amlinellu yn Adrannau 4-6 isod). Byddem yn arbennig o falch o gael unrhyw dystiolaeth neu adroddiadau am y diwydiant i gefnogi'r wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno, neu i ategu safbwyntiau sydd wedi'u mynegi'n barod gan randdeiliaid yn y ddogfen hon am gyflwr a chyfeiriad y sector yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Byddem hefyd yn falch o gael gwybodaeth bellach am yr arferion cynhyrchu a ddefnyddir wrth gynhyrchu rhaglenni sy'n cael eu cynnwys yn y cwotâu ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol*.
- 1.14 Dim ond un set o ofynion o fewn matrices o gwotâu i ddarllledwyr gwasanaeth cyhoeddus a dyletswyddau rheoleiddio ehangach yw'r cwotâu ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol*. Byddwn yn ymwybodol o'r cysylltiadau hyn wrth gynnal yr adolygiad hwn, a'r dyletswyddau rheoleiddio ehangach a roddir ar ddarllledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

## Y camau nesaf

- 1.15 Bydd safbwyntiau rhanddeiliaid yn llywio ein hystyriaethau ar gyfer yr adolygiad hwn, ynghyd â thystiolaeth a dadansoddiadau eraill (gan gynnwys gwaith ymgynghori mewnol ac sy'n cael ei gomisiynu). Rydym yn croesawu ymatebion i'r Cais hwn am Dystiolaeth erbyn 10 Mai 2018. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad yn nes ymlaen yn 2018, a fydd yn nodi ein cynigion. Felly, y Cais hwn am Dystiolaeth yw'r cyfle cyntaf o ddau i gyfrannu'n ffurfiol at yr adolygiad.

## 2. Newidiadau yn y maes cynhyrchu teledu

### Y sector cynhyrchu yn y DU

- 2.1 Mae'r sector cynhyrchu teledu yn y DU wedi gweld newidiadau sylweddol ers i'r canllawiau gael eu cyflwyno yn 2004, gan gynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill: cyflwyno Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol y BBC ('WoCC') yn 2007, a oedd yn neilltuo 25% o'r rhaglenni a gomisiynir gan y BBC er mwyn i gwmnïau cynhyrchu annibynnol a'r BBC yn fewnol gystadlu amdanyn nhw; prosesau cyfuno yn y sector cynhyrchu annibynnol sydd wedi arwain at greu 'uwch-gwmnïau annibynnol'; newidiadau i drefniadau cwota'r gwledydd a'r rhanbarthau; a symud nifer o adrannau'r BBC i Salford, proses a gwblhawyd yn 2012.
- 2.2 Gwelodd ein hadolygiad yn 2015 o'r sector cynhyrchu teledu yn y DU fod y diwydiant wedi datblygu'n sylweddol o'i ddyddiau fel diwydiant bach anffurfiol 20 mlynedd yn ôl – pan oedd cynhyrchwyr yn gweithio'n unigol ar sail gwaith am dâl (work-for-hire) – i fod yn sector llwyddiannus iawn sy'n creu refeniw mawr ac yn manteisio ar gyfleoedd tramor.<sup>11</sup> Gwelsom mai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n dal yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r rhaglenni newydd sy'n cael eu comisiynu, ond bod darlledwyr aml-sianel ac wynebaw newydd fel Amazon a Netflix yn comisiynu mwy o gynnwys gwreiddiol a'u bod felly'n cynnig cyfleoedd comisiynu ychwanegol i gynhyrchwyr. Mae refeniw'r sector wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gydag effaith digwyddiadau chwaraeon mawr i'w gweld yn y gwahaniaeth rhwng blynyddoedd dilynol (Ffigur 1). Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae refeniw teledu domestig wedi lleihau fymryn, ond mae'r cynnydd mewn refeniw rhyngwladol wedi gwrthbwysu hynny'n rhannol.<sup>12</sup>

---

<sup>11</sup> [Adolygiad Ofcom o'r Sector Cynhyrchu Teledu, 2015.](#)


<sup>12</sup> [Cyfrifiad 2017 Pact ynghylch y sector cynhyrchu teledu yn y DU, Oliver and Ohlbaum.](#)



## Ffigur 1: Twf mewn Refeniw

### Cyfanswm refeniw yn dal yn sefydlog ar ychydig dros £2.5 biliwn yn 2016

Refeniw rhyngwladol sydd wedi gweld y mwyaf o dwf, gyda CAGR o 13.2 y cant ers 2010




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2017 Pact ynghylch y sector cynhyrchu teledu yn y DU, dadansoddiad Oliver and Ohlbaum. Nodyn: \*Mae refeniw sydd ddim yn dod o deledu yn cynnwys cynyrchiadau corfforaethol, cyfryngau newydd a gweithgareddau eraill sydd ddim yn weithgareddau teledu, fel cyhoeddi ar-lein, rheoli talent, hyrwyddo, cysylltiadau cyhoeddus a ffilmiau.

## Y sector cynhyrchu teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

2.3 Roedd yr adolygiad yn 2015 hefyd yn ystyried nifer y cynhyrchwyr gweithredol<sup>13</sup> ar hyd a lled y DU, a sut roedd hyn wedi newid ers 2008. Gwelsom mai Llundain yw'r prif leoliad i gwmnïau cynhyrchu o hyd, ond roedd nifer y cynhyrchwyr yno wedi lleihau, a hynny'n bennaf oherwydd y cyfuno a fu yn y sector – gan gynnwys integreiddio fertigol o fewn darlledwyr. Roedd nifer y cynhyrchwyr wedi gostwng mewn rhai rhanbarthau hefyd, yn enwedig yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, Swydd Efrog, Canolbarth Lloegr, Anglia a De-orllewin Lloegr. Fel rhan o'r adolygiad, byddwn yn ceisio deall i ba raddau mae'r cyfuno a fu wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn, ac a oedd ffactorau eraill wedi cyfrannu at hynny. Fodd bynnag, roedd nifer y cynhyrchwyr wedi cynyddu ym mhob un o'r gwledydd datganoledig ac yng Ngogledd-orllewin Lloegr.

<sup>13</sup> Y rhai a oedd wedi cael comisiwn gan sianel rhwydwaith darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, a'r comisiwn hwnnw wedi cael ei ddarlledu yn ystod y flwyddyn benodol honno.

Ffigur 2 – Nifer y cynhyrchwyr gweithredol yn ôl rhanbarth 2008 – 2014



Ffynhonnell: Adolygiad Ofcom o'r Sector Cynhyrchu Teledu: Oliver & Ohlbaum - Trends in TV production, 2015. Nodyn: mae cynhyrchwyr gweithredol yn cyfeirio at y rheini a oedd wedi cael comisiwn gan sianel rhwydwaith darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, a'r comisiwn hwnnw wedi cael ei ddarlledu yn ystod y flwyddyn benodol honno.

- 2.4 Mae'n debygol bod y cynnydd yn nifer y cynhyrchwyr yng Ngogledd-orllewin Lloegr yn deillio'n rhannol o'r ffaith bod y BBC wedi symud i Salford yn 2012, ac mae hynny wedi helpu i feithrin a denu talentau a darlledwyr eraill i'r ardal i ddatblygu canolbwynt i'r cyfryngau. Mae'n fwy tebygol bod y cynnydd yn y gwledydd yn deillio'n rhannol o'r newidiadau yng nghwotâu a strategaethau comisiynu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'r BBC yn cytuno ag Ymddiriedolaeth y BBC yn 2008 ar darged i gynyddu ei wariant rhwydwaith y tu allan i Loegr 17% erbyn 2016<sup>14</sup>, a chwota newydd o 3% yn cael ei gyflwyno i Channel 4 yn 2010 ar gyfer cynyrchiadau y tu allan i Loegr<sup>15</sup> (a fydd yn cynyddu i 9% yn 2020<sup>16</sup>).
- 2.5 Yn wir, mae'r amlinelliad hwn o'r broses gynhyrchu yn cyd-fynd â'r newidiadau rydym wedi'u gweld o ran ffigurau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer oriau a gwariant y tu allan i Lundain. Mae'r gwariant a'r oriau sy'n cael eu priodoli i raglenni a neilltuir i bob

<sup>14</sup> [Yr Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo cynyddu nifer y cynyrchiadau teledu rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y gwledydd, 2008.](#)

<sup>15</sup> [Ail adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, 2009.](#)


<sup>16</sup> [Aildrwyddedu Channel 4, 2014.](#)

un o'r gwledydd datganoledig wedi cynyddu'n gyson ers 2008. Yn 2016, ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd roedden nhw wedi gwario 5.7% o'u gwariant cymwys perthnasol yn yr Alban ar *gynyrchiadau rhanbarthol*, 3.2% yng Nghymru ac 1.5% yng Ngogledd Iwerddon – wedi cynyddu o 2.5%, 1.7% a 0.3% yn 2008. Gogledd Lloegr sy'n gweld y rhan fwyaf o'r oriau a'r gwariant ar gynyrchiadau y tu allan i Lundain, ac roedd hynny hefyd yn wir yn 2008. Mae'r gyfran o'r gwariant wedi lleihau yng Nghanolbarth ac yn Nwyrain Lloegr ers 2008, ac mae'r oriau a'r gwariant wedi lleihau yn Ne Lloegr.<sup>17</sup>

2.6 Yn 2016, gyda'i gilydd defnyddiodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus 43% o'u gwariant cymwys ar raglenni a oedd yn cael eu cynnwys yn y cwotâu ar gyfer *cynyrchiadau teledu rhanbarthol*, a oedd yn 51% o'r holl oriau. Mae'r ddau ffigur wedi cynyddu ers 2008 – o 39% a 35%. Fodd bynnag, roedd y gyfran o wariant cymwys ar raglenni a neilltuwyd y tu allan i Lundain ar ei huchaf yn 2014, sef 48%.

2.7 Mae Ffigur 3 yn dangos bod pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn dweud ei fod wedi cyflawni ei gwotâu cyffredinol ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol* ers 2012, ac wedi rhagori arnynt yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd cwota Channel 4 wedi cynyddu o 30% i 35% yn 2012 ar gyfer gwariant ac oriau, ac rydym hefyd wedi cynyddu cwotâu'r BBC o 30% ar gyfer gwariant a 25% ar gyfer oriau i 50% ar gyfer y ddwy elfen, a bydd hynny'n berthnasol o 2018 ymlaen (mae rhagor o wybodaeth am y lefelau cwota presennol ar gael yn Adran 3). Fel y soniwyd yn flaenorol, mae gan Channel 4 hefyd gwota ar wahân ar gyfer cynyrchiadau a wneir y tu allan i Loegr, sef 3% (a bydd yn cynyddu i 9% yn 2020). Rydym hefyd wedi cyflwyno cwotâu gwariant ac oriau penodol i'r BBC ar gyfer pob un o'r gwledydd datganoledig, yn ogystal â Lloegr (y tu allan i'r M25). Bydd y rhain yn berthnasol o 2018 ymlaen, ac maen nhw wedi'u nodi yn Adran 3.

**Ffigur 3 – cyflawniad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran y cwotâu ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol* yn 2012 – 2016**



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.

<sup>17</sup> [Yr Adroddiad Cydymffurfiad Blynyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, 2017.](#)

- 2.8 I wella ein dealltwriaeth o gyflwr y sector cynhyrchu ar hyn o bryd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, rydym wedi comisiynu diweddariad o elfennau gwledydd a rhanbarthau'r gwaith ymgynghori a wnaed ar gyfer yr adolygiad o'r sector cynhyrchu teledu yn 2015.<sup>18</sup> Bydd hyn, ar y cyd â dadansoddiad o adroddiadau eraill sydd wedi'u cyhoeddi, pwyntiau data ac ymatebion rhanddeiliaid, yn ein helpu i ddeall effaith yr amrywiaeth eang o newidiadau a welwyd yn y sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac unrhyw oblygiadau i'n canllawiau.
- 2.9 Bydd angen i ni hefyd ystyried effaith bosib datblygiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y sector, neu rai sydd ar y gweill, sy'n debygol o effeithio ar y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r rhain yn cynnwys creu BBC Studios fel endid masnachol a chael gwared ar warant fewnol y BBC, yn ogystal â chynigion Channel 4 i gynyddu nifer y swyddi a'r gwariant yn y gwledydd a'r rhanbarthau a'r sianel arfaethedig ar gyfer BBC Scotland.
- 2.10 Rydym yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar gyflwr y sector ar hyn o bryd, yn ogystal ag unrhyw ddadansoddiad neu astudiaethau achos ynghylch effaith newidiadau blaenorol yn y sector ar y sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau neu ar fusnes penodol, ac unrhyw wybodaeth bellach maen nhw am ei rhannu am y newidiadau sydd ar y gweill yn y diwydiant. Hefyd, rydym yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau isod:

**Cwestiynau am sefyllfa'r sector cynhyrchu teledu:**

1. Ers i'r canllawiau gael eu cyflwyno yn 2004, pa ffactorau sydd wedi effeithio fwyaf (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y sector cynhyrchu teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a pham? A yw'r rhain yn wahanol i'r ffactorau sy'n effeithio ar gynyrchiadau yn Llundain?
2. Sut mae penderfyniad y BBC i symud i Salford wedi effeithio (os o gwbl) ar y sector, ac ar *gynyrchiadau teledu rhanbarthol* yn benodol?
3. A yw'r cyfleoedd i gynhyrchwyr teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn amrywio yn ôl genre? Os felly, ym mha genres mae hi'n haws neu'n anoddach cael comisiynau?
4. Beth yw barn rhanddeiliaid am effaith bosib y newidiadau strwythurol sydd ar y gweill yn y diwydiant ar y sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau?

*Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich ymateb(ion).*

---

<sup>18</sup> [Oliver & Ohlbaum - Trends in TV production, 2015.](#)

## 3. Y cwotâu a'r canllawiau: y safbwynt rheoleiddio

### Bwriad y cwotâu

#### *Cynyrchiadau teledu rhanbarthol*

- 3.1 Rydym ni o'r farn mai ymyriadau polisi diwydiannol yw'r gofynion ar gyfer *cynyrchiadau teledu rhanbarthol* yn bennaf, sy'n ceisio cefnogi a chryfhau'r sector cynhyrchu teledu a'r economïau creadigol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU. Maen nhw'n canolbwyntio ar y gwariant ar raglenni rhwydwaith sy'n cael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25 ac ar swmp y rhaglenni hynny, ni waeth beth yw pwnc na chynnwys y rhaglen. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y meini prawf sy'n rhan o'r canllawiau rydym wedi'u gosod ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol*, sy'n canolbwyntio ar gyfraniad cynhyrchiad h.y. lleoliad y cwmni cynhyrchu, ble mae cyllideb y rhaglen yn cael ei gwario, ac o ble mae'r talentau cynhyrchu oddi ar y sgrin yn dod (gallwch weld yr union eiriad yn Adran 4).
- 3.2 Dydyn ni ddim wedi llunio unrhyw feini prawf i fynnu cynnwys golygyddol penodol ar y sgrin, gan nad ydyn ni o'r farn bod hyn yn rhan ganolog o fwriad yr ymyriadau ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol*. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y ffordd mae darlledwyr a chynhyrchwyr yn dewis bodloni'r meini prawf yn gallu dylanwadu ar yr hyn sy'n ymddangos ar y sgrin. Er enghraifft mae lleoliad y gwaith ffilmio neu - yn fwy cynnil - y cydbwysedd rhwng nifer a lefel y swyddi sy'n cael eu neilltuo i dalentau rhanbarthol ac i dalentau yn Llundain yn gallu effeithio ar ba mor Llundeinig yw cynhyrchiad, neu newid llais golygyddol neu naws gyffredinol y cynhyrchiad. Mae'r manteision posib hyn a ddaw yn sgil defnyddio'r meini prawf i'w croesawu. Mae'r pwnc hwn yn cael ei drafod ymhellach yn Adran 4.

#### *Rhaglenni teledu rhanbarthol*

- 3.3 Yn groes i hynny, er bod y dyletswyddau o ran *rhaglenni rhanbarthol* yn cynnwys gofyniad i fuddsoddi, maen nhw hefyd yn rhoi sylw i'r cynnwys sy'n ymddangos ar y sgrin er mwyn sicrhau canlyniad penodol iawn. Mae ein canllawiau'n dweud y dylai *rhaglenni rhanbarthol* ddelio â phynciau sydd o ddiddordeb penodol i'r rhanbarth ac sydd o lai o ddiddordeb mewn llefydd eraill, er enghraifft buddiannau, pryderon a digwyddiadau rhanbarthol. Dylid hefyd lleoli *rhaglenni rhanbarthol* yn y rhanbarth a bod hynny'n amlwg, neu gynnwys pobl sy'n gyfarwydd i drigolion y rhanbarth neu sydd â chysylltiad agos â'r rhanbarth (neu'r ddau). Yn sgil hynny, mae'r math yma o raglenni'n debygol o adlewyrchu rhannau penodol o wledydd a rhanbarthau'r DU yn uniongyrchol i wylwyr yn yr ardaloedd hyn.

## Y cwotâu

3.4 Rydym wedi gosod cwotâu ar gyfer *cynyrchiadau teledu rhanbarthol* yn nhrwydded pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn pennu'r oriau a'r gwariant sylfaenol y dylid eu neilltuo i raglenni a wneir y tu allan i'r M25.<sup>19</sup> Mae amryw o newidiadau wedi'u gwneud i'r lefelau hyn ers i'r canllawiau gael eu cyflwyno am y tro cyntaf, ac mae'r lefelau presennol wedi'u nodi yn Ffigur 4. Rydym hefyd wedi gosod cwotâu ar Channel 4 ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Loegr, ac yn 2017 fe wnaethom gyflwyno cwotâu oriau a gwariant i'r BBC ym mhob gwlad, a daeth y rhain i rym yn 2018.

**Ffigur 4: Y cwotâu presennol ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol**

		BBC	ITV	Channel 4	Channel 5
<b>Cynyrchiadau y tu allan i'r M25</b>	% oriau o raglenni rhwydwaith	50%	35%	35%	10%
	% gwariant cynyrchiadau	50%	35%	35%	10%
<b>Cynyrchiadau yn y gwledydd</b>	% oriau o raglenni rhwydwaith	Lloegr y tu allan i'r M25: 30% Yr Alban: 8% Cymru: 4% (5% o 2020 ymlaen) Gogledd Iwerddon: 2% (3% o 2020 ymlaen)	Amh.	3% (9% o 2020 ymlaen)	Amh.
	% gwariant cynyrchiadau	Lloegr y tu allan i'r M25: 28% (30% o 2020 ymlaen) Yr Alban: 8% Cymru: 5% Gogledd Iwerddon: 3%	Amh.	3% (9% o 2020 ymlaen)	Amh.

*Ffynhonnell: Trwyddedau Ofcom ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Nodyn: Mae cwotâu'r BBC yn berthnasol i wasanaethau teledu'r BBC yn gyffredinol, ond mae cwotâu ITV, Channel 4 a Channel 5 yn berthnasol i'r brif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn unig.*

3.5 Rydym hefyd wedi cynnwys cwotâu oriau yn nhrwyddedau'r BBC a Channel 3 i sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i *raglenni rhanbarthol*. Mae'r tabl isod yn cynnwys enghreifftiau o lefelau'r dyletswyddau hyn.

**Ffigur 5: Enghreifftiau o'r cwotâu presennol ar gyfer rhaglenni rhanbarthol**

Y BBC	Channel 3
<p>O ran BBC One a BBC Two, mae'n rhaid i'r BBC wneud y canlynol (ym mhob blwyddyn galendr), ymysg pethau eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau o leiaf 6,300 o oriau o raglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol/rhanbarthol ac sy'n cynnig ystod addas o raglenni (yn cynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol)</li> </ul>	<p>Mae gan Channel 3 ddyletswyddau o ran <i>raglenni rhanbarthol</i>, e.e. mae trwydded Anglia Channel 3 yn cynnwys dyletswyddau i wneud y canlynol, ymysg pethau eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau 2.5 awr o <i>raglenni rhanbarthol</i> (raglenni newyddion a heb fod yn rhai newyddion) yn Anglia East ac yn Anglia West</li> </ul>

<sup>19</sup> Mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ofynion ychwanegol hefyd i sicrhau bod ystod addas o raglenni yn cael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25, ac i sicrhau bod gwariant cynyrchiadau yn gallu cael ei briodoli i ystod addas o ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.

- |  |   |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"><li>• sicrhau bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny yn cael eu gwneud yn y wlad/rhanbarth</li><li>• ystyried unrhyw ganllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan Ofcom</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>• sicrhau bod 99% o'r <i>rhaglenni rhanbarthol</i> yn cael eu gwneud yn yr ardal (yn y rhanbarth yn gyffredinol)</li><li>• ystyried unrhyw ganllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan Ofcom</li></ul> |
|--|---|

Ffynhonnell: *Trwyddedau Ofcom ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.*

## Cefndir y canllawiau

- 3.6 Cafodd canllawiau Ofcom i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynghylch cyflawni eu cwotâu ar gyfer *rhaglenni* a *chynyrchiadau rhanbarthol* eu cyhoeddi gyntaf yn 2004,<sup>20</sup> yn dilyn ymgynghoriad yn 2003.<sup>21</sup>
- 3.7 Un o brif nodau'r canllawiau oedd creu un diffiniad o *gynhyrchiad rhanbarthol* a fyddai, am y tro cyntaf, yn berthnasol i'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan helpu i sicrhau bod y gofynion statudol yn y maes hwn yn cael eu rhoi ar waith yn deg, yn gyson ac yn effeithiol. Y bwriad oedd, yn benodol, y byddai hyn yn arwain at fuddsoddi gwirioneddol yn y broses o wneud rhaglenni yn y gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr, yn unol â bwriad yr ymyriadau.
- 3.8 Un ddogfen ganllawiau sydd ar gael ar hyn o bryd, a honno wedi'i rhannu'n ddwy adran – un ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol* (sy'n berthnasol i'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus) ac un ar gyfer *rhaglenni rhanbarthol* (sy'n berthnasol i'r rheini sy'n dal trwyddedau Channel 3 a'r BBC).
- 3.9 Mae trwyddedau'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys gofyniad sy'n mynnu eu bod yn ystyried y canllawiau.

<sup>20</sup> [Cyhoeddi'r diffiniadau o gynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol, 2004.](#)

<sup>21</sup> [Canllawiau arfaethedig Ofcom ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol, 2003.](#)



## 4. Rhoi'r canllawiau ar waith yn ymarferol: cynyrchiadau teledu rhanbarthol

### Y meini prawf

- 4.1 Mae'r canllawiau yn nodi ein diffiniad o 'gynhyrchiad rhanbarthol.'<sup>22</sup> Er mwyn cael eu cynnwys yn y cwota oriau ar gyfer *cynhyrchiad rhanbarthol*, mae'n rhaid i gynyrchiadau perthnasol fodloni dau o'r tri maen prawf canlynol:
1. *"mae'n rhaid i'r cwmni cynhyrchu gael canolfan gynhyrchu a busnes sylweddol yn y DU y tu allan i'r M25. Bydd canolfan yn cael ei hystyried yn un sylweddol os mai dyma yw man gwaith arferol y swyddogion gweithredol sy'n rheoli'r busnes rhanbarthol, staff uwch sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad dan sylw, a staff uwch sy'n ymwneud â'r gwaith o chwilio am raglenni i'w comisiynu;*
  2. *mae'n rhaid gwario o leiaf 70% o'r gyllideb cynhyrchu (gan eithrio costau talentau ar y sgrin, deunydd o'r archif, hawliau chwaraeon, arian a roddir fel gwobrau mewn cystadlaethau a chostau hawlfraint) yn y DU y tu allan i'r M25; ac*
  3. *mae'n rhaid mai yn y DU, y tu allan i'r M25, y mae man gwaith arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu (h.y. nid talentau ar y sgrin) o ran costau. Bydd gweithwyr llawrydd sydd heb fan gwaith arferol y tu allan i'r M25 yn cael eu cynnwys at y diben hwn os ydyn nhw'n byw y tu allan i'r M25."*<sup>23</sup>
- 4.2 Mae'r un meini prawf hefyd yn cael eu defnyddio i benderfynu a yw rhaglen yn cael ei chynnwys yn y cwota gwariant. Yn yr achos hwnnw, byddai holl gost y rhaglen (ac eithrio arian trydydd parti) yn cael ei gynnwys yn y cwota.<sup>24</sup>
- 4.3 Pwrpas eithrio talentau ar y sgrin o'r meini prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu a thalentau cynhyrchu yw sicrhau bod y cwotâu'n dal i ganolbwyntio ar arbenigedd cynhyrchu yn y rhanbarthau yn hytrach nag ar dalentau ar y sgrin sy'n gallu symud o un lle i'r llall. Hefyd, mae'n sicrhau nad yw'r cwotâu'n cael eu sgiwio gan gost sylweddol talentau ar y sgrin mewn rhai cynyrchiadau, ac mae hynny'n bwysig iawn.<sup>25</sup>
- 4.4 Roedd y lefel ar gyfer talentau cynhyrchu wedi'i gosod ar 50% er mwyn ystyried y ffaith bod cyfran sylweddol o'r talentau cynhyrchu profiadol wedi'u lleoli o fewn yr M25 ar y pryd, ac y byddai'n cymryd amser i'r sefyllfa honno newid.<sup>26</sup>

---

<sup>22</sup> Paragraff 4.

<sup>23</sup> Paragraff 5.

<sup>24</sup> Paragraff 6.

<sup>25</sup> Paragraff 9(2).

<sup>26</sup> Paragraff 9(3).



- 4.5 Y rhesymeg wrth fynnu bod cynyrchiadau'n cydymffurfio ag o leiaf ddau o'r tri maen prawf oedd cynnig hyblygrwydd i gynhyrchwyr ddefnyddio rhywfaint o adnoddau yn Llundain heb rwystro bwriad polisi'r dyletswyddau.<sup>27</sup>

## Rhoi'r meini prawf ar waith yn ymarferol mewn cynyrchiadau

- 4.6 Cafodd y canllawiau eu creu er mwyn adlewyrchu natur ddeinamig y broses o wneud rhaglenni. Mae'r broses cynhyrchu teledu yn gadwyn gynhyrchu gymhleth – o'r broses gomisiynu i'r darllediad. Mae'r broses yn amrywio ar gyfer pob rhaglen, ac yn cael ei llywio gan gynhyrchwyr ac uwch gynhyrchwyr (sy'n cael eu cyflogi gan y cwmni cynhyrchu neu gynhyrchydd mewnol), ond comisiynydd y darlledwr sy'n rheoli'r broses yn y pen draw.
- 4.7 Mae pob cynhyrchiad yn galw am wasanaethau amrywiaeth eang o dalentau sy'n gweithio mewn sawl lleoliad ac yn gweithio o dan gontract am gyfnodau gwahanol. Er enghraifft, gallai cwmni cynhyrchu annibynnol mawr ddatblygu syniad yn ei bencadlys yn Llundain a byddai'r syniad yn cael ei gomisiynu gan BBC Salford, yna byddai'r tîm cynhyrchu yn cael ei roi at ei gilydd gan ddefnyddio gweithwyr llawrydd o'r gwledydd, y rhanbarthau a Llundain, a byddai'r cynhyrchiad wedi'i leoli mewn swyddfa ranbarthol yng Nghymru. Byddai'r gwaith ffilmio'n digwydd mewn sawl lleoliad ar hyd a lled y DU, a'r gwaith golygu ac ôl-gynhyrchu yn cael ei gwblhau yn ôl yn Llundain.
- 4.8 Cafodd y canllawiau eu llunio i fod yn ddigon hyblyg i ymateb i bob set unigryw o amgylchiadau, a'i fod yn dal yn ddigon llym i gyflawni bwriad y cwotâu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod hyblygrwydd yn gallu arwain at amwysedd weithiau. Felly rydym am ddeall yn well y profiadau uniongyrchol sydd gan randdeiliaid o weithio gyda'r canllawiau, ac yn benodol, y tri maen prawf sy'n diffinio *cynyrchiadau rhanbarthol*.
- 4.9 Fel y soniwyd yn flaenorol, rydym eisoes wedi dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn deall yn well sut mae'r canllawiau'n gweithio'n ymarferol. Yn sgil y trafodaethau hyn, rydym wedi gallu casglu rhywfaint o safbwyntiau cychwynnol ynghylch y meini prawf a sut maen nhw'n cael eu rhoi ar waith, ac wedi'u crynhoi isod. Ar y cam hwn yn yr adolygiad, rydym yn casglu safbwyntiau y byddwn yn eu hystyried ymhellach, yn hytrach na gwneud sylwadau helaeth ar y materion a godwyd.

## Y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol

*“Mae'n rhaid i'r cwmni cynhyrchu gael canolfan gynhyrchu a busnes sylweddol yn y DU y tu allan i'r M25. Bydd canolfan yn cael ei hystyried yn un sylweddol os mai dyma yw man gwaith arferol y swyddogion gweithredol sy'n rheoli'r busnes rhanbarthol, staff uwch sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad dan sylw, a staff uwch sy'n ymwneud â'r gwaith o chwilio am raglenni i'w comisiynu.”*

- 4.10 Roedd Cofrestr 2016 yn dangos bod 93% o gynyrchiadau'n dweud bod ganddyn nhw ganolfan sylweddol yn y gwledydd neu'r rhanbarthau. Roedd sylwadau rhanddeiliaid ar y

<sup>27</sup> Paragraff 9(1).

maen prawf hwn yn canolbwyntio ar natur barhaol swyddfeydd cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Er enghraifft, roedd rhai'n awgrymu ei bod yn gallu bod yn anodd barnu a ddylai swyddfa gael ei hystyried yn ganolfan sylweddol. Roedd eraill yn awgrymu y dylai natur barhaol swyddfa gael ei hystyried yn y diffiniad o ganolfan sylweddol er mwyn sicrhau bod y wlad neu'r rhanbarth perthnasol yn cael buddion hirdymor, ac roedd rhai'n teimlo y dylai'r maen prawf hwn fod yn ofyniad gorfodol ar gyfer pob *cynhyrchiad rhanbarthol*.<sup>28</sup> Awgrymwyd y gallai ychwanegu gofynion eraill at y maen prawf – er enghraifft, gorfod cadw offer cynhyrchu yn y ganolfan sylweddol – annog cynhyrchwyr i ddatblygu mwy o ganolfannau sylweddol hirdymor. Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod canolfannau sefydlog sy'n cynnwys staff parhaol ac yn defnyddio gweithwyr rhanbarthol mewn sefyllfa dda i gynnig safbwynt neu lais golygyddol gwahanol i gynyrchiadau yn Llundain, ac i helpu i ddatblygu canolfannau cynhyrchu cynaliadwy.

- 4.11 Ar ôl ystyried y safbwyntiau sydd wedi'u crynhoi uchod, rydym yn awyddus i gael gwybod am unrhyw bwyntiau newydd yr hoffai rhanddeiliaid eu gwneud mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol am rôl ac effeithiolrwydd y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol:

### Cwestiynau am y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol

5. Yn eich profiad chi, a yw'r diffiniad o ganolfan sylweddol yn gweithio'n dda yn ymarferol? Os na, sut byddai modd ei wella?
6. A yw'r maen prawf yn cyfrannu at yr amcan i gryfhau *cynyrchiadau rhanbarthol* ar hyn o bryd? Os yw'n gwneud hynny, sut? Ac os nad yw'n gwneud hynny, pam?
7. A oes unrhyw amgylchiadau pan na ddylai swyddfa sydd wedi'i dynodi'n fan gwaith arferol staff uwch neu swyddogion gweithredol gael ei hystyried yn ganolfan sylweddol? Os oes, rhowch esboniad pellach.
8. A yw'r maen prawf hwn yn creu unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar hyn o bryd?
9. Byddem yn falch o gael gwybodaeth/enghreifftiau gan gwmnïau cynhyrchu am ystod a swyddogaethau'r staff mewn swyddfeydd cynhyrchu y tu allan i Lundain.
10. A yw cynhyrchwyr yn tueddu i rannu lle yn y gwledydd a'r rhanbarthau er mwyn ehangu a chwtogi yn unol â'u cynllun comisiynu, ac felly i helpu gyda chostau/arbedion?

*Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich ymateb(ion).*

### Y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu

*“Mae'n rhaid gwario o leiaf 70% o'r gyllideb cynhyrchu (gan eithrio costau talentau ar y sgrin, deunydd o'r archif, hawliau chwaraeon, arian a roddir fel gwobrau mewn cystadlaethau a chostau hawlfraint) yn y DU y tu allan i'r M25.”*

<sup>28</sup> Ar hyn o bryd, mae cynyrchiadau'n gallu bodloni unrhyw ddau o'r tri maen prawf yn y gwledydd a'r rhanbarthau er mwyn cael eu cynnwys yn y cwota.

- 4.12 O ran y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu, roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau y dylai'r diffiniad fod yn fwy penodol er mwyn sicrhau bod 70% o'r gyllideb cynhyrchu yn cael ei gwario y tu allan i'r M25, ar eitemau sydd o fudd i'r ecoleg gynhyrchu leol a allai ddwyn budd ehangach yn yr ardal ddaearyddol berthnasol. Fodd bynnag, roedd eraill yn rhybuddio na ddylid ychwanegu gofynion pellach na chynyddu lefel y gwariant angenrheidiol. Roedden nhw'n dweud ei bod hi'n gallu bod yn anodd cyrraedd y lefel bresennol – sef 70% – yn barod, yn enwedig os yw comisiynwyr yn mynnu ei bod yn rhaid defnyddio cyfleusterau neu staff penodol yn Llundain neu os yw'r cynhyrchiad yn cael ei reoli o swyddfa yn Llundain, ac y gallai fod yn amhosib bodloni'r maen prawf hwn os bydd yn cael ei dynhau o gwbl.
- 4.13 Ar ôl ystyried y safbwyntiau sydd wedi'u crynhoi uchod, rydym yn awyddus i gael gwybod am unrhyw bwyntiau newydd yr hoffai rhanddeiliaid eu gwneud mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol am y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu:

#### Cwestiynau am y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu:

11. A yw'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu wedi'i osod ar y lefel briodol?
12. Pa heriau mae cynhyrchwyr yn eu hwynebu wrth fodloni'r maen prawf hwn? A yw'r rhain yn amrywio, gan ddibynnu ar ganolfan sylweddol y cynhyrchiad?
13. A yw'r maen prawf hwn yn creu unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar hyn o bryd?
14. Rydym yn croesawu unrhyw dystiolaeth/data ynghylch sut mae cyllidebau cynhyrchu ar gyfer cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn gweithio'n ymarferol.

*Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich ymateb(ion).*

#### Y maen prawf ar gyfer talentau cynhyrchu teledu oddi ar y sgrin

*“Mae'n rhaid mai yn y DU, y tu allan i'r M25, y mae man gwaith arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu (h.y. nid talentau ar y sgrin) o ran costau. Bydd gweithwyr llawrydd sydd heb fan gwaith arferol y tu allan i'r M25 yn cael eu cynnwys at y diben hwn os ydyn nhw'n byw y tu allan i'r M25.”*

- 4.14 Fel y nodwyd yn gynharach, cafodd y maen prawf ar gyfer talentau ei osod ar 50% yn wreiddiol er mwyn ystyried y ffaith bod llawer o dalentau cynhyrchu wedi'u lleoli yn Llundain ar y pryd. Fodd bynnag, mae nifer o'r rhanddeiliaid y gwnaethom ni siarad â nhw – yn enwedig yn rhanbarthau Lloegr – o'r farn bod mwy o dalentau cynhyrchu ar gael y tu allan i Lundain ers i'r canllawiau gael eu cyflwyno, ac felly y dylid cynyddu'r lefel. Roedden nhw'n dadlau y byddai hyn yn galluogi'r gwledydd a'r rhanbarthau i feithrin a dal gafael ar arbenigedd ar bob lefel, ac i ddatblygu sylfaen o dalentau a marchnad waith fwy cynaliadwy y tu allan i'r M25.
- 4.15 Roedd rhai rhanddeiliaid yn awgrymu bod darlledwyr yn gallu mynnu bod talentau allweddol o Lundain yn cael eu cyflogi ar gynhyrchiad, ac yn cwestiynu a fyddai cwmnïau cynhyrchu yn gallu cyrraedd lefel uwch o ran talentau a bodloni gofynion y darlledwyr.

Roedd eraill o'r farn y dylai'r cynnig i gynyddu'r lefel arwain at leihau nifer yr aelodau o'r tîm cynhyrchu – ar lefelau uwch yn aml – y byddai modd eu dethol o Lundain, ac y gallai hynny wella'r cyfleoedd i drosglwyddo profiadau a gwybodaeth werthfawr o fewn y gymuned gynhyrchu yn lleol a sicrhau mwy o waith i dalentau y tu allan i Lundain.

- 4.16 Yn groes i hynny, roedd rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn awgrymu bod y lefel bresennol ar gyfer talentau yn eu galluogi i gymryd mwy o 'risgiau' wrth gomisiynu, gan eu bod yn gallu defnyddio talentau cyfarwydd o Lundain wrth weithio gyda thimau neu gwmnïau cynhyrchu newydd i helpu i arwain neu hyfforddi a datblygu talentau yn y gwledydd a'r rhanbarthau.
- 4.17 Ar ôl ystyried y safbwyntiau sydd wedi'u crynhoi uchod, rydym yn awyddus i gael gwybod am unrhyw bwyntiau newydd yr hoffai rhanddeiliaid eu gwneud mewn ymateb i'r cwestiynau isod ynghylch y maen prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin:

### Cwestiynau am y maen prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin

15. A yw'r maen prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin wedi'i osod ar y lefel briodol?
16. Pa mor anodd neu hawdd ydyw i'r rheini sy'n gwneud rhaglenni fodloni'r maen prawf presennol?
17. A oes amrediad o gynrychiolaeth o dalentau o'r gwledydd a'r rhanbarthau ar gael i'w cyflogi ar bob lefel? A yw'n amhosib llenwi rhai swyddi gan ddefnyddio gweithwyr o'r gwledydd a'r rhanbarthau yn unig? Os felly, pa swyddi a beth yw effaith hynny ar gyllidebau cynhyrchu?
18. A yw darlledwyr yn rhoi hyblygrwydd i gynhyrchwyr gyflogi'r staff maen nhw'n dymuno eu cyflogi, ni waeth beth yw'r lleoliad?
19. Pa swyddi, os o gwbl, y mae'r darlledwr yn mynnu yn eu cylch amlaf? A yw hyn yn amrywio yn ôl genre?
20. A yw'r maen prawf hwn yn creu unrhyw gymhellion gwrthun ar hyn o bryd?
21. Rydym yn croesawu unrhyw dystiolaeth i awgrymu a yw'r dosraniad o dalentau oddi ar y sgrin a'r ystod o sgiliau sydd ar gael wedi newid ers i'r lefel hon gael ei gosod yn 2004.

*Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich ymateb(ion).*

### Y meini prawf yn gyffredinol

- 4.18 Mae llawer o'r pwyntiau gan rhanddeiliaid ynghylch pob maen prawf unigol yn cyfeirio at gynaliadwyedd y sector cynhyrchu y tu allan i'r M25 – h.y. a yw'r gofynion ar gyfer *cynrychiadau rhanbarthol* yn arwain at fanteision mwy hirdymor. Byddwn yn edrych yn fanylach ar y mater hwn fel rhan o'r adolygiad. Felly, hoffem ddeall safbwyntiau rhanddeiliaid am effaith gyffredinol y meini prawf ar gynaliadwyedd y sector yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a byddem yn falch o gael ymatebion i gwestiwn 23 isod.
- 4.19 Hyd yma, rydym wedi defnyddio dull sy'n seiliedig ar feini prawf i ddiffinio pa deitlau sy'n gymwys i fod yn *gynrychiadau rhanbarthol*, ond rydym yn cydnabod y gallem fabwysiadu methodoleg a dulliau eraill yn lle hynny. Er enghraifft, mae Sefydliad Ffilm Prydain hefyd yn

defnyddio system meini prawf wrth gynnal ei brawf diwylliannol ar gyfer ffilmiau,<sup>29</sup> ond mae'r system hon yn gweithio ar lefel fanylach o lawer, e.e. rhoi gwahanol bwyntiau ar gyfer gwahanol swyddi, ymysg pethau eraill. Os byddwn ni o'r farn bod dadl dros newid y canllawiau, bydd angen i ni asesu a fyddai dulliau eraill yn gallu targedu'n fwy effeithiol unrhyw faterion penodol a nodwyd yn yr adolygiad. Yn y sefyllfa hon, bydd yn bwysig pwysu a mesur manteision ac anfanteision y modelau – e.e. ystod o reolau sydd wedi'u targedu'n fwy penodol, neu ddull ehangach sy'n ceisio cynnig hyblygrwydd er mwyn sbarduno creadigrwydd – a sicrhau bod modd rhoi'r canllawiau ar waith ar gyfer ystod mor eang â phosib o sefyllfaoedd a all godi wrth wneud rhaglenni.

- 4.20 Ar ôl ystyried y meini prawf yn unigol, rydym hefyd yn croesawu safbwyntiau ynghylch sut mae'r tri maen prawf yn gweithio gyda'i gilydd, fel y nodir yn y cwestiynau isod:

### Cwestiynau am y meini prawf yn gyffredinol

22. Ai'r tri maen prawf a ddefnyddir i ddiffinio *cynhyrchiad rhanbarthol* at ddibenion y cwotâu yw'r rhai priodol i'w defnyddio, neu a oes ffactorau eraill y dylid eu cynnwys yn awr yn lle hynny neu'n ogystal â hynny?
23. I ba raddau mae'r meini prawf, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at gynaliadwyedd y sector cynhyrchu y tu allan i'r M25?
24. A yw'r meini prawf neu'r canllawiau yn ehangach yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n tanseilio cynaliadwyedd y sector cynhyrchu y tu allan i'r M25?
25. A yw'r meini prawf yn rhy benodol? Er enghraifft, a oes achosion o gynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau sydd ddim yn gymwys yn y pendraw i gael eu cynnwys yn y cwota ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol*?
26. Ai'r dull meini prawf yw'r ffordd orau o reoleiddio'r maes hwn, neu a fyddai modelau eraill yn gweithio'n well?

*Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich ymateb(ion).*

### Rôl Llundain mewn *cynyrchiadau teledu rhanbarthol*

- 4.21 Mae sylwadau rhanddeiliaid ar y meini prawf uchod yn awgrymu bod gan Llundain rôl sylweddol o hyd mewn *cynyrchiadau rhanbarthol*, ac mae hyn yn arwain at safbwyntiau cryf. Pan gyhoeddwyd y canllawiau yn 2004, roeddem wedi cynnwys ymrwymiad i *“fonitro'r cydbwysedd rhwng cynyrchiadau rhanbarthol sydd wedi'u creu gan gynhyrchwyr rhanbarthol a chynhyrchwyr yn Llundain, ac os daw i'r amlwg bod cynhyrchwyr yn Llundain yn dominyddu cynyrchiadau rhanbarthol, byddwn yn ystyried newidiadau pellach.”*<sup>30</sup>
- 4.22 Byddwn yn asesu'r cydbwysedd hwn fel rhan o'r adolygiad. Un ffactor i'w ystyried fydd rôl yr arfer 'Codi a Symud'. Mae hyn yn golygu symud cyfres lwyddiannus – a honno'n rhedeg ers tro yn aml iawn – a oedd yn arfer cael ei chynhyrchu yn Llundain, a mynnu bod y gyfres

<sup>29</sup> [Y Prawf Diwylliannol ar gyfer Ffilmiau – Sefydliad Ffilm Prydain.](#)

<sup>30</sup> Edrychwch ar baragraff 9.1 y [canllawiau](#).

wedi'i hailgomisiynu yn cael ei chynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Weithiau, mae hyn wedi arwain at gwmnïau cynhyrchu yn Llundain yn sefydlu is-swyddfa yn y gwledydd neu'r rhanbarthau er mwyn rheoli'r cynhyrchiad. Mae *Question Time* (BBC) a *Fifteen to One* (Channel 4) yn ddwy enghraifft o gyfresi a oedd yn rhedeg ers tro a gafodd eu symud i Glasgow.

- 4.23 Mae 'Codi a Symud' wedi bod yn bwnc dadleuol yn y diwydiant. Mae'r rheini sydd o blaid yr arfer yn dadlau ei fod yn ffordd effeithiol i ddarlledwyr sbarduno buddsoddiad mewn ardal drwy sefydlu a datblygu cynhyrchiad, a'i fod yn gallu rhoi hwb i ganolfannau cynhyrchu presennol gan helpu i'w cryfhau. Mae'r comisiynau hyn – sy'n rhai sylweddol yn aml iawn – yn gallu cynnig rhywfaint o sicrwydd i gwmnïau cynhyrchu a thalentau ynghylch llif arian a gwaith. Mae hynny'n galluogi'r cwmnïau hynny i wneud cais am gomisiynau eraill, ac i ymsefydlu mewn ardal newydd, gan helpu felly i gynnal neu dyfu'r cwmni cynhyrchu. Fe allai hyn gael effaith gadarnhaol ar gwmnïau lleol eraill yn yr ardal sy'n gallu elwa o gyfleusterau lleol a chronfa ehangach a mwy priodol o dalentau, yn enwedig os yw'r gwaith ôl-gynhyrchu hefyd yn digwydd yn lleol. Gallai hyn greu'r amodau priodol i greu canolfannau cynhyrchu cynaliadwy.
- 4.24 Fodd bynnag, yn ystod ein sesiynau ymgysylltu, daeth yn amlwg bod rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod 'Codi a Symud' wedi bod yn werthfawr iawn yn wreiddiol wrth helpu i sefydlu canolfannau cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ond ei fod wedi gwneud y diben erbyn hyn ac nad yw'n angenrheidiol mwyach. Fe aeth y rheini sy'n beirniadu'r arfer gam ymhellach, gan awgrymu ei fod yn galluogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i barhau i roi comisiynau mawr i swyddfeydd rhanbarthol sy'n eiddo i gwmnïau mawr yn Llundain, a'r rheini'n cyfrif am gyfran sylweddol o'r cwotâu oriau a gwariant. Gallai hynny olygu bod cwmnïau brodorol llai – sy'n awyddus i lenwi'r cwotâu ag ystod ehangach o gynyrchiadau gwreiddiol – yn colli cyfleoedd i ehangu eu harbenigedd a'u cynlluniau cynhyrchu a fyddai, gobeithio, yn helpu i ddatblygu sector cryfach y tu allan i'r M25.
- 4.25 Byddem yn falch o gael safbwyntiau pellach ar rôl Llundain mewn *cynyrchiadau rhanbarthol*:

### Cwestiynau am rôl Llundain yn y broses cynyrchiadau rhanbarthol

27. Yn eich profiad chi, faint o rôl sydd gan Lundain mewn cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac ym mha ffordd?
28. Pa fanteision/anfanteision mae cynhyrchiad 'Codi a Symud' yn eu cynnig i'r gwledydd a'r rhanbarthau yn eich barn chi? Byddem yn falch o gael astudiaethau achos/enghreifftiau o gynyrchiadau 'Codi a Symud'.
29. A yw 'Codi a Symud' yn helpu neu'n rhwystro cynaliadwyedd y broses gynhyrchu yn ardal y cynhyrchiad, ac yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn ehangach?
30. A oes gwahanol rannau o'r broses gynhyrchu sy'n fwy tebygol o ddigwydd yn Llundain neu y tu allan i Lundain?

*Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich ymateb(ion).*

### Cynrychioli a phortreadu'r gwledydd a'r rhanbarthau ar y sgrin

- 4.26 Efen arall sydd o ddiddordeb mawr i randdeiliaid yw rôl cynrychioli a phortreadu mewn rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi'r farn y dylid defnyddio'r gofynion ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol* i gynrychioli a phortreadu'n well ar y sgrin – naill ai drwy ychwanegu talentau ar y sgrin at feini prawf y canllawiau, neu fynnu bod rhaglenni'n cyflawni cwotâu mewn gwledydd neu ranbarthau penodol er mwyn cynrychioli a phortreadu'r ardal lle cafodd y rhaglenni eu gwneud.
- 4.27 Fodd bynnag, dydy cynrychioli a phortreadu ddim yn rhai o amcanion penodol y gofynion ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol*. Dyna pam mae'r cwotâu'n canolbwyntio ar nifer y rhaglenni yn hytrach na'r cynnwys. Yn wir, er mwyn llwyddo i gyflawni prif fwriad yr ymyriad – cefnogi a chryfhau'r sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau – mae'n bwysig bod cwmnïau cynhyrchu y tu allan i Lundain yn gallu gwneud cais am ystod mor eang â phosib o gomisiynau, ac ni ddylent gael eu cyfyngu i wneud dim ond rhaglenni am yr ardaloedd lle maen nhw wedi'u lleoli.
- 4.28 Mae angen cydnabod hefyd ei bod yn bosib bod *cynyrchiadau rhanbarthol* yn mynd ati i gynrychioli a/neu bortreadu yn sgil penderfyniad golygyddol bwriadol gan y rheini sy'n gwneud y rhaglen, neu yn sgil y broses gynhyrchu sydd – yn ei thro – yn cael ei llywio'n bendant gan y canllawiau. Rydym ni o'r farn bod hyn yn un o'r manteision cadarnhaol a gwerthfawr sy'n gysylltiedig ag amryw o *cynyrchiadau rhanbarthol*. Mae'n bosib bod y gofynion ar gyfer *rhaglenni rhanbarthol* hefyd yn helpu i gynrychioli a phortreadu, gan eu bod yn gorfod rhoi sylw i bynciau rhanbarthol a chael eu lleoli yn y rhanbarth, neu gynnwys pobl sy'n adnabyddus yn y rhanbarth neu'n gysylltiedig â'r rhanbarth (edrychwch ar Adran 3 uchod).

## Cais am ragor o wybodaeth ynghylch cynrychioli a phortreadu

31. Hoffem gael tystiolaeth neu astudiaethau achos gan randdeiliaid a allai ddatblygu ein dealltwriaeth o'r cyfraniad mae *cynrychiadau rhanbarthol* yn ei wneud ar hyn o bryd at y broses o gynrychioli a phortreadu'r gwledydd a'r rhanbarthau, er mwyn cael syniad o faint y budd cysylltiedig hwn.

*Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich ymateb(ion).*

4.29 Dylid nodi bod gan y BBC – yn wahanol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill – ddyletswyddau penodol yn ei Siarter "*i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig*"<sup>31</sup>, a'i bod yn rhaid iddo gyflwyno adroddiad blynyddol i Ofcom ar ei berfformiad. Byddem yn disgwyl i'r adroddiad hwn sôn am raglenni a chynrychiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae Ofcom hefyd yn cynnal adolygiad ar wahân, sy'n ystyried i ba raddau mae'r BBC yn cynrychioli ac yn portreadu'r DU. Bydd yr adolygiad hwnnw, ymysg pethau eraill, yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng yr hyn sy'n digwydd ar y sgrin a'r broses o wneud rhaglenni.<sup>32</sup> Mae hyn yn rhan o raglen waith ehangach Ofcom ar amrywiaeth.<sup>33</sup>

## Neilltuo cynrychiadau rhanbarthol i wlad neu is-ranbarth

4.30 Mae'r canllawiau hefyd yn gofyn bod y data a gyflwynir gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i Ofcom yn neilltuo pob *cynhyrchiad rhanbarthol* i'r Alban, i Gymru neu i Ogledd Lwerddon, neu i un o dri is-ranbarth yn Lloegr.<sup>34</sup>

4.31 Pan gafodd y canllawiau eu cyflwyno am y tro cyntaf, roedd cynrychiadau â chanolfannau sylweddol y tu allan i Lundain yn cael eu neilltuo ar sail lleoliad y ganolfan honno, ni waeth ble roedd y meini prawf ar gyfer cyllideb a thalentau cynhyrchu oddi ar y sgrin yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, os oedd y cynhyrchiad yn cael ei wneud gan gynhyrchydd yn Llundain (ac felly nad oedd yn bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol), roedd yn rhaid ei neilltuo ar sail y meini prawf ar gyfer cyllideb a thalentau cynhyrchu oddi ar y sgrin. Cafodd y canllawiau eu diwygio yn 2009 gan ein bod o'r farn ei bod yn annheg bod cynhyrchwyr y tu allan i Lundain yn cael eu cyfyngu i wneud dim ond rhaglenni y gellid eu neilltuo i'r ardal lle'r oeddent wedi'u lleoli. Roedd hynny'n cyfyngu eu gallu i gystadlu am gomisiynau y byddai darlledwyr yn dymuno eu gwneud mewn lleoliad arall o bosib. Erbyn hyn, mae teitlau'n cael eu neilltuo ar sail ble mae'r rhan fwyaf o'r tri maen prawf yn cael eu bodloni.

<sup>31</sup> [Diben Cyhoeddus 4, Siarter y BBC 2016.](#)

<sup>32</sup> [Adolygiad thematig Ofcom o gynrychiolaeth a phortread ar y BBC: Cylch gorchwyl, Chwefror 2018.](#)

<sup>33</sup> [Trosolwg o waith Ofcom ar gydraddoldeb ac amrywiaeth 2018/19.](#)

<sup>34</sup> Mae'r is-ranbarthau'n cynnwys rhanbarthau'r llywodraeth, sef Swydd Efrog a Humber, Gogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Lloegr; Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Dwyrain Lloegr, De-orllewin a De-ddwyrain Lloegr.



- 4.32 Fodd bynnag, mewn achosion pan nad yw rhaglen sy'n cael ei gwneud gan gynhyrchydd yn y gwledydd neu'r rhanbarthau yn llwyr fodloni'r meini prawf ar gyfer cyllideb a/neu dalentau cynhyrchu oddi ar y sgrin mewn un wlad neu is-ranbarth, mae'n dal i fod i gael ei neilltuo i'w chanolfan sylweddol. Os yw'r rhaglen yn cael ei chynhyrchu gan gynhyrchydd yn Llundain, ac nad yw'r meini prawf ar gyfer cyllideb a thalentau cynhyrchu oddi ar y sgrin yn cael eu bodloni mewn un wlad neu is-ranbarth, mae'r canllawiau'n mynnu bod y teitl hwn yn cael ei neilltuo fel cynhyrchiad 'sawl gwlad/rhanbarth'.
- 4.33 Gan ddefnyddio'r fethodoleg hon, mae pob teitl yn cael ei neilltuo i un ardal o'r DU yn unig, er bod y broses gynhyrchu'n digwydd mewn amryw o leoliadau mewn gwirionedd. Rydym yn sylweddoli bod hyn yn gorsymleiddio'r broses gynhyrchu o bosib, ac felly rydym yn fodlon ystyried ai mynnu bod pob teitl yn cael ei neilltuo i un ardal yn unig yw'r ffordd orau o ddelio â hyn. Fodd bynnag, byddai unrhyw ddull newydd yn dal yn gorfod sicrhau bod rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Loegr – yn achos y BBC a Channel 4 – yn dal i gael eu nodi felly, er mwyn iddyn nhw gyfrif tuag at eu gofynion mwy penodol ar gyfer cynhyrchu yn y gwledydd.
- 4.34 Rydym yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol er mwyn datblygu ein syniadau ar gyfer yr elfen hon ymhellach:

#### **Cwestiynau am y broses o neilltuo cynyrchiadau**

32. A yw'r broses o neilltuo cynyrchiadau i wlad neu is-ranbarth yn gweithio'n dda yn ymarferol, neu ydych chi'n credu y dylem ystyried unrhyw ddulliau eraill yn lle hynny? Er enghraifft, neilltuo rhannau o un teitl i'r gwahanol ardaloedd lle cafodd y cynhyrchiad ei wneud.
33. Pan fydd cynhyrchiad wedi bodloni'r tri maen prawf mewn gwahanol wledydd/is-ranbarthau, bydd yn cael ei neilltuo i'r ganolfan sylweddol fel mater o drefn. Ai dyma'r dull gorau, neu a yw'n arwain at ganlyniadau anfwriadol?
34. A oes angen i ni ystyried unrhyw beth arall yn hyn o beth? Er enghraifft, ai'r gwledydd a'r is-ranbarthau presennol yw'r ardaloedd priodol i'w defnyddio i neilltuo cynyrchiadau?

*Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich ymateb(ion).*

## 5. Rhoi'r canllawiau ar waith yn ymarferol: *rhaglenni teledu rhanbarthol*

- 5.1 Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau a Chytundeb y BBC yn diffinio *rhaglenni rhanbarthol* fel y rheini sydd o ddiddordeb arbennig i'r bobl sy'n byw yn yr ardal sy'n cael y gwasanaeth. Wrth benderfynu ar y natur ranbarthol, mae ein canllawiau'n dweud y bydd yr hyn sy'n gwneud rhaglenni unigol yn wahanol i wasanaethau rhanbarthau eraill a'r rhwydweithiau yn ystyriaeth allweddol. Yn benodol, mae ein diffiniad yn dweud y dylai *rhaglenni rhanbarthol*:
- a) *"ddelio â materion sydd o ddiddordeb penodol i'r rhanbarth, ac sydd o lai o ddiddordeb mewn llefydd eraill (e.e. buddiannau, pryderon a digwyddiadau rhanbarthol); ac*
- b) *y dylent yn amlwg fod wedi'u lleoli yn y rhanbarth a/neu gynnwys pobl sy'n gyfarwydd i drigolion y rhanbarth neu sydd â chysylltiad agos â'r rhanbarth."*<sup>35</sup>
- 5.2 Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau a Chytundeb y BBC yn mynnu bod Ofcom yn gosod gofynion ar Channel 3 a'r BBC i sicrhau bod cyfran addas o *raglenni rhanbarthol* yn cael eu gwneud yn yr ardal sy'n cael y gwasanaeth. Wrth benderfynu a yw rhaglen wedi cael ei gwneud yn y rhanbarth, bydd y tri maen prawf uchod ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol* yn berthnasol, gan roi 'yn y rhanbarth' yn lle 'y tu allan i'r M25'.
- 5.3 Dydyn ni ddim yn cynnig adolygu ein diffiniad o *raglenni rhanbarthol* yn fanwl ar hyn o bryd, gan nad ydyn ni wedi cael llawer o adborth gan randdeiliaid i awgrymu bod unrhyw bryderon ynghylch yr agwedd hon ar y canllawiau. Efallai fod hynny'n deillio'n rhannol o'r ffaith bod newidiadau yn y sector sy'n effeithio ar brosesau cynhyrchu a'r broses o roi'r canllawiau ar waith yn cael mwy o effaith ar *gynyrchiadau rhanbarthol* o bosib. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd unrhyw newidiadau rydym yn ystyried eu gwneud i'r meini prawf ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol* yn effeithio ar y ffordd mae'r rheini sy'n dal trwyddedau'r BBC a Channel 3 yn penderfynu a gafodd *rhaglen ranbarthol* ei gwneud yn y rhanbarth. Yn y sefyllfa hon, byddai angen i ni ystyried a fyddai'n briodol amrywio'r meini prawf ar gyfer y ddwy set o ddyletswyddau.
- 5.4 Rydym yn awyddus i gael safbwyntiau rhanddeiliaid am *raglenni rhanbarthol*, er mwyn penderfynu a oes dadl dros adolygu ein diffiniad yn fanylach, ac am yr effaith y gallai unrhyw newidiadau i'r meini prawf ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol* ei chael ar y broses o benderfynu a yw'r rhaglenni hyn wedi cael eu gwneud yn y rhanbarth.
- 5.5 Dydyn ni ddim wedi cael llawer o adborth ynghylch effaith y canllawiau ar gyfer *rhaglenni rhanbarthol*, ac rydym yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol cyn penderfynu ar ffocws yr ymgynghoriad:

---

<sup>35</sup> Paragraff 14.

**Cwestiynau am raglenni rhanbarthol**

35. A yw'r meini prawf ar gyfer talentau ar y sgrin a ddefnyddir i benderfynu ar y natur ranbarthol yn briodol, neu a oes ffactorau eraill y dylid eu cynnwys yn awr yn lle hynny neu'n ogystal â hynny?
36. A yw'r tri maen prawf a ddefnyddir i benderfynu a yw *cynhyrchiad rhanbarthol* wedi cael ei wneud yn yr ardal sy'n cael y gwasanaeth yn briodol, neu a oes ffactorau eraill y dylid eu cynnwys yn awr yn lle hynny neu'n ogystal â hynny?
37. A oes unrhyw agweddau eraill ar adran *raglenni rhanbarthol* y canllawiau sy'n gofyn am adolygiad manylach?

*Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich ymateb(ion).*

## 6. Y broses adrodd

- 6.1 Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyfrifol am ddarparu data cywir i Ofcom er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded, gan gynnwys cydymffurfio â'u cwotâu ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol* ac (os yw'n berthnasol) eu dyletswyddau o ran *rhaglenni rhanbarthol*.
- 6.2 Petai Ofcom yn gweld bod deiliad trwydded wedi torri amodau ei drwydded sy'n ymwneud â *chynyrchiadau rhanbarthol* a/neu (os yw'n berthnasol) *rhaglenni rhanbarthol*, gallai Ofcom ystyried gosod sancsiynau arno, gan gynnwys rhoi cosb ariannol.
- 6.3 Bob blwyddyn, byddwn yn cyhoeddi pecyn data darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus<sup>36</sup> sy'n dangos sut mae'r darlledwyr yn dweud eu bod wedi perfformio o ran cyflawni eu cwotâu.
- 6.4 Ers 2010, rydym hefyd wedi cyhoeddi'r *'Gofrestr o deitlau rhaglenni sydd wedi'u gwneud y tu allan i Lundain'*<sup>37</sup> er mwyn gwneud y broses adrodd yn fwy tryloyw yn y maes hwn. Mae'r Gofrestr yn rhestru'r holl raglenni y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dweud eu bod wedi'u gwneud y tu allan i Lundain mewn blwyddyn benodol, a gafodd eu cynnwys yn eu cwotâu ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol*. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ba feini prawf mae'r cynyrchiadau wedi'u bodloni, y cynhyrhydd a'r wlad neu'r is-ranbarth mae'r cynyrchiadau wedi cael eu neilltuo iddynt.
- 6.5 Er bod cyflwyno'r Gofrestr wedi sicrhau proses fwy tryloyw o ran y ffordd mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dweud eu bod wedi cyflawni eu cwotâu, mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud wrthym y byddent yn hoffi gweld rhagor o wybodaeth a manylion yn y Gofrestr. Mae'n bosib bod manteision i broses fwy tryloyw. I'n helpu i ystyried y pwyntiau hyn ymhellach, rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i roi gwybod i ni pa feysydd maen nhw'n credu y dylid darparu rhagor o wybodaeth yn eu cylch, ac i egluro sut byddai unrhyw wybodaeth bellach yn ddefnyddiol:

### Cwestiynau am adrodd a chydymffurfio

38. Beth sy'n ddefnyddiol am *'Y Gofrestr o deitlau rhaglenni sydd wedi'u gwneud y tu allan i Lundain'* ar ei ffurf bresennol, a pham?
39. A fyddai modd gwella'r Gofrestr o gwbl? Os byddai, sut?
40. A oes gwybodaeth ychwanegol y byddai modd ei chynnwys yn y Gofrestr er mwyn helpu i wneud y broses yn fwy tryloyw?
41. A oes ffyrdd eraill o wneud ein proses adrodd yn fwy tryloyw?

<sup>36</sup> [Ofcom: Adroddiad Blynyddol ar Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2017](#) ac [Ofcom: Adroddiad Blynyddol ar Gydymffurfiaid Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau, 2017](#).

<sup>37</sup> [Ofcom: Cofrestrau rhaglenni sydd wedi'u gwneud y tu allan i Lundain](#).

## Elfennau eraill i'w hystyried

6.6 Yn olaf, hoffem gael unrhyw safbwyntiau perthnasol eraill gan randdeiliaid ynghylch y canllawiau, a beth y dylem ei ystyried fel rhan o'r adolygiad hwn:

42. A oes unrhyw faterion eraill yn deillio o'r canllawiau sydd ddim yn cael sylw yn y Cais hwn am Dystiolaeth? Os oes, rhowch fanylion am y materion hynny.

# A1. Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau am y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 10 Mai 2018.

A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/regional-production-programming-guidance-review> Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i [madeoutsidelondonreview@ofcom.org.uk](mailto:madeoutsidelondonreview@ofcom.org.uk), fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>).

A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Made outside London Review Team  
Ofcom  
Riverside House  
2A Southwark Bridge Road  
London SE1 9HA

A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
- Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A1.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

- A1.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad A4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.
- A1.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Stephanie Brook ar 020 7981 3283 neu anfonwch e-bost at [stephanie.brook@ofcom.org.uk](mailto:stephanie.brook@ofcom.org.uk).

## Cyfrinachedd

- A1.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, [www.ofcom.org.uk](http://www.ofcom.org.uk), cyn gynted ag y byddant yn dod i law.
- A1.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.
- A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use>.

## Y camau nesaf

- A1.15 Byddem yn croesawu ymatebion erbyn 10 Mai 2018. Bydd safbwyntiau rhanddeiliaid yn llywio ein hystyriaethau ar gyfer yr adolygiad hwn, ochr yn ochr â dadansoddiad a thystiolaeth arall. Rydym yn bwriadu cyhoeddi Ymgynghoriad yn nes ymlaen yn 2018, a fydd yn rhoi manylion am ein cynigion.
- A1.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/email-updates>.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

- A1.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad A2.
- A1.18 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn [consult@ofcom.org.uk](mailto:consult@ofcom.org.uk). Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A1.19 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Steve Gettings, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Steve Gettings

Ofcom

Riverside House

2a Southwark Bridge Road

London SE1 9HA

E-bost: [corporationsecretary@ofcom.org.uk](mailto:corporationsecretary@ofcom.org.uk)



## A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

### Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

#### Cyn yr ymgynghoriad

- A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

#### Yn ystod yr ymgynghoriad

- A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
- A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.
- A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos, yn dibynnu ar effaith bosib ein cynigion.
- A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom yw'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
- A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

#### Ar ôl yr ymgynghoriad

- A2.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

## A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Rhaglenni a Chynrychiadau Rhanbarthol:

Cais am Dystiolaeth

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen ymgynghori drwy'r e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim rhan o'r ymateb

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? \_\_\_\_\_

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

### DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

**Adolygiad o'r canllawiau ar gyfer cynyrchiadau a rhaglenni rhanbarthol**

Enw

Llofnod (os yw'n gopi papur)

## A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

### Adolygiad o'r canllawiau ar gyfer rhaglenni a chynyrchiadau teledu rhanbarthol

A4.1 Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn ffordd o gasglu data a safbwyntiau rhanddeiliaid am gyflwr y sector cynhyrchu teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac effaith y canllawiau presennol ar y broses o ddarparu *cynyrchiadau a rhaglenni rhanbarthol*. Bydd yr wybodaeth a gaiff ei chasglu yn cael ei defnyddio i helpu i ddatblygu ymgynghoriad ar unrhyw newidiadau i'r drefn sy'n angenrheidiol yn ein barn ni.

1. Ers i'r canllawiau gael eu cyflwyno yn 2004, pa ffactorau sydd wedi effeithio fwyaf (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y sector cynhyrchu teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a pham? A yw'r rhain yn wahanol i'r ffactorau sy'n effeithio ar gynyrchiadau yn Llundain?
2. Sut mae penderfyniad y BBC i symud i Salford wedi effeithio (os o gwbl) ar y sector, ac ar *gynyrchiadau teledu rhanbarthol* yn benodol?
3. A yw'r cyfleoedd i gynhyrchwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn amrywio yn ôl genre? Os felly, ym mha genres mae hi'n haws neu'n anoddach cael comisiynau?
4. Beth yw barn rhanddeiliaid am effaith bosib y newidiadau strwythurol sydd ar y gweill yn y diwydiant ar y sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau?
5. Yn eich profiad chi, a yw'r diffiniad o ganolfan sylweddol yn gweithio'n dda yn ymarferol? Os na, sut byddai modd ei wella?
6. A yw'r maen prawf yn cyfrannu at yr amcan i gryfhau *cynyrchiadau rhanbarthol* ar hyn o bryd? Os yw'n gwneud hynny, sut? Ac os nad yw'n gwneud hynny, pam?
7. A oes unrhyw amgylchiadau pan na ddylai swyddfa sydd wedi'i dynodi'n fan gwaith arferol staff uwch neu swyddogion gweithredol gael ei hystyried yn ganolfan sylweddol? Os oes, rhowch esboniad pellach.
8. A yw'r maen prawf hwn yn creu unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar hyn o bryd?
9. Byddem yn falch o gael gwybodaeth/enghreifftiau gan gwmnïau cynhyrchu am ystod a swyddogaethau'r staff mewn swyddfeydd cynhyrchu y tu allan i Lundain.
10. A yw cynhyrchwyr yn tueddu i rannu lle yn y gwledydd a'r rhanbarthau er mwyn ehangu a chwtogi yn unol â'u cynllun comisiynu, ac felly i helpu gyda chostau/arbedion?
11. A yw'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu wedi'i osod ar y lefel briodol?
12. Pa heriau mae cynhyrchwyr yn eu hwynebu wrth fodloni'r maen prawf hwn? A yw'r rhain yn amrywio, gan ddibynnu ar ganolfan sylweddol y cynhyrchiad?
13. A yw'r maen prawf hwn yn creu unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar hyn o bryd?
14. Rydym yn croesawu unrhyw dystiolaeth/data ynghylch sut mae cyllidebau cynhyrchu ar gyfer cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn gweithio'n ymarferol.

15. A yw'r meini prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin wedi'u gosod ar y lefel briodol?
16. Pa mor anodd neu hawdd ydyw i'r rheini sy'n gwneud rhaglenni fodloni'r maen prawf presennol?
17. A oes amrediad o gynrychiolaeth o dalentau o'r gwledydd a'r rhanbarthau ar gael i'w cyflogi ar bob lefel? A yw'n amhosib llenwi rhai swyddi gan ddefnyddio gweithwyr o'r gwledydd a'r rhanbarthau yn unig? Os felly, pa swyddi a beth yw effaith hynny ar gyllidebau cynhyrchu?
18. A yw darlledwyr yn rhoi hyblygrwydd i gynhyrchwyr gyflogi'r staff maen nhw'n dymuno eu cyflogi, ni waeth beth yw'r lleoliad?
19. Pa swyddi, os o gwbl, y mae'r darlledwr yn mynnu yn eu cylch amlaf? A yw hyn yn amrywio yn ôl genre?
20. A yw'r maen prawf hwn yn creu unrhyw gymhellion gwrthun ar hyn o bryd?
21. Rydym yn croesawu unrhyw dystiolaeth i awgrymu a yw'r dosraniad o dalentau oddi ar y sgrin a'r ystod o sgiliau sydd ar gael wedi newid ers i'r lefel hon gael ei gosod yn 2004.
22. Ai'r tri maen prawf a ddefnyddir i ddiffinio *cynhyrchiad rhanbarthol* at ddibenion y cwotâu yw'r rhai priodol i'w defnyddio, neu a oes ffactorau eraill y dylid eu cynnwys yn awr yn lle hynny neu'n ogystal â hynny?
23. I ba raddau mae'r meini prawf, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at gynaliadwyedd y sector cynhyrchu y tu allan i'r M25?
24. A yw'r meini prawf neu'r canllawiau yn ehangach yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n tanseilio cynaliadwyedd y sector cynhyrchu y tu allan i'r M25?
25. A yw'r meini prawf yn rhy benodol? Er enghraifft, a oes achosion o gynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau sydd ddim yn gymwys yn y pendraw i gael eu cynnwys yn y cwota ar gyfer *cynyrchiadau rhanbarthol*?
26. Ai'r dull meini prawf yw'r ffordd orau o reoleiddio'r maes hwn, neu a fyddai modelau eraill yn gweithio'n well?
27. Yn eich profiad chi, faint o rôl sydd gan Lundain mewn cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac ym mha ffordd?
28. Pa fanteision/anfanteision mae cynhyrchiad 'Codi a Symud' yn eu cynnig i'r gwledydd a'r rhanbarthau yn eich barn chi? Byddem yn falch o gael astudiaethau achos/enghreifftiau o gynyrchiadau 'Codi a Symud'.
29. A yw 'Codi a Symud' yn helpu neu'n rhwystro cynaliadwyedd y broses gynhyrchu yn ardal y cynhyrchiad, ac yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn ehangach?
30. A oes gwahanol rannau o'r broses gynhyrchu sy'n fwy tebygol o ddigwydd yn Llundain neu y tu allan i Lundain?

31. Hoffem gael tystiolaeth neu astudiaethau achos gan randdeiliaid a allai ddatblygu ein dealltwriaeth o'r cyfraniad mae *cynyrchiadau rhanbarthol* yn ei wneud ar hyn o bryd at y broses o gynrychioli a phortredu'r gwledydd a'r rhanbarthau, er mwyn cael syniad o faint y budd cysylltiedig hwn.
32. A yw'r broses o neilltuo cynyrchiadau i wlad neu is-ranbarth yn gweithio'n dda yn ymarferol, neu ydych chi'n credu y dylem ystyried unrhyw ddulliau eraill yn lle hynny? Er enghraifft, neilltuo rhannau o un teitl i'r gwahanol ardaloedd lle cafodd y cynhyrchiad ei wneud.
33. Pan fydd cynhyrchiad wedi bodloni'r tri maen prawf mewn gwahanol wledydd/is-ranbarthau, bydd yn cael ei neilltuo i'r ganolfan sylweddol fel mater o drefn. Ai dyma'r dull gorau, neu a yw'n arwain at ganlyniadau anfwriadol?
34. A oes angen i ni ystyried unrhyw beth arall yn hyn o beth? Er enghraifft, ai'r gwledydd a'r is-ranbarthau presennol yw'r ardaloedd priodol i'w defnyddio i neilltuo cynyrchiadau?
35. A yw'r meini prawf ar gyfer talentau ar y sgrin a ddefnyddir i benderfynu ar y natur ranbarthol yn briodol, neu a oes ffactorau eraill y dylid eu cynnwys yn awr yn lle hynny neu'n ogystal â hynny?
36. A yw'r tri maen prawf a ddefnyddir i benderfynu a yw *cynhyrchiad rhanbarthol* wedi cael ei wneud yn yr ardal sy'n cael y gwasanaeth yn briodol, neu a oes ffactorau eraill y dylid eu cynnwys yn awr yn lle hynny neu'n ogystal â hynny?
37. A oes unrhyw agweddau eraill ar adran *rhaglenni rhanbarthol* y canllawiau sy'n gofyn am adolygiad manylach?
38. Beth sy'n ddefnyddiol am '*Y Gofrestr o deitlau rhaglenni sydd wedi'u gwneud y tu allan i Lundain*' ar ei ffurf bresennol, a pham?
39. A fyddai modd gwella'r Gofrestr o gwbl? Os byddai, sut?
40. A oes gwybodaeth ychwanegol y byddai modd ei chynnwys yn y Gofrestr er mwyn helpu i wneud y broses yn fwy tryloyw?
41. A oes ffyrdd eraill o wneud ein proses adrodd yn fwy tryloyw?
42. A oes unrhyw faterion eraill yn deillio o'r canllawiau sydd ddim yn cael sylw yn y Cais hwn am Dystiolaeth? Os oes, rhowch fanylion am y materion.

*Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich ymateb(ion).*